MADE CYMRU
ASTUDIAETH ACHOS




# Lois Harris

Bisley

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Undeb Ewropeaidd
European Union
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund



## Manylion am Bisley

Gwneuthurwr dodrefn swyddfa yw Bisley. Yn benodol, dodrefn storio. Byth ers lansio'r Multi-Drawer eiconig ym 1958, mae Bisley wedi arloesi ym maes dodrefn storio gwreiddiol sy'n cwrdd â heriau'r oes ac yn aros yn berthnasol, ddegawd ar ôl degawd.



## Cyflwyniad i Lois Harris

Lois Harris yw'r Prynwr Technegol yn Bisley yng Nghasnewydd, Cymru, ac mae hi hefyd yn fyfyriwr MSc Diwydiant 4.0 Gweithgynhyrchu Uwch gyda MADE Cymru ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.

**Beth yw eich rôl yn Bisley?**

Ar hyn o bryd rwy'n gweithio fel prynwr technegol yn Bisley. Fy rôl yw bod yn gyswllt technegol rhwng yr adrannau peirianneg dylunio, datblygu cynnyrch newydd a phrynu. Mae fy ngwaith yn amrywiol ac yn newid o ddydd i ddydd ac rwy'n ei fwynhau'n fawr. Rwy'n ym-wneud â gosod pris ac archebu cynhyrchion sydd heb fod yn safonol gan ein cyflenwyr, yn ogystal ag adolygu prosesau fel costio cynnyrch, argaeledd cydrannau a pherfformiad cyflenwyr.

**Beth wnaeth i chi gofrestru ar y cwrs?**

Rwy'n gweld cysyniad diwydiant 4.0 yn ddiddorol, yn enwedig gan ei fod yn cwm-pasu cymaint o agweddau ar weithgynhyrchu. Mae diwydiant 4.0 yn newid y ffordd y mae cwmnïau'n gweithredu, a hynny ym mhob ystyr, o ymddygiad a thueddiadau cwsmeriaid, pros-esau dylunio a gweithgynhy-rchu, gwelliannau mewn effeithlonrwydd a dosbarthiad cynhyrchion a gwasanaethau. Mae technolegau sy'n dod i'r amlwg fel Internet of Things (IoT), cyfrifiadura cwmwl, dadansoddeg data ac AI gyda 'dysgu peirianyddol' yn chwarae rhan bwysig yn nyfodol gweithgynhyrchu.

**Cyn y cwrs, pryd/beth oedd y tro diwethaf i chi astudio?**

Rwy' wedi bod yn ffodus i gael y cyfle i astudio'n rhan-amser trwy gydol fy ngyrfa yn Bisley. Yn ystod yr wyth mlynedd diwethaf rwy' wedi astudio'n rhan amser, gan ddechrau gyda phrentisiaeth (NVQ,BTEC, HNC a HND) mewn Peirianneg Fecanyddol. Ar ôl cwblhau hyn, ymunais â PCYDDS er mwyn dilyn cwrs BEng mewn Peirian-neg Fecanyddol a Gweithgyn-hyrchu, cyn ymuno â'r cwrs MSc hwn gyda MADE Cymru ym mis Hydref 2021.

## 'Mae'r darlithwyr a'r staff cymorth ar y cwrs yn wych – dydyn nhw ddim yn gallu gwneud digon i'ch helpu'.

~ Lois Harris

**Pa heriau oedd gennych chi neu'r sefydliad yr oeddech chi'n gobeithio y byddai'r cwrs yn mynd i'r afael â nhw?**

O fewn i'r cwrs, rwy'n astudio modiwlau sy'n cynnwys diwydiant uwch 4.0, rheoli arloesi, dylunio ar gyfer diwydiant 4.0 a rheolaeth a chynllunio ariannol – gall pob un o'r meysydd hyn helpu i fynd i'r afael â'r heriau gwahanol y mae'r busnes yn eu hwynebu. Er enghraifft, roedd modiwl diwydiant 4.0 yn canolb-wyntio ar dechnolegau sy'n dod i'r amlwg e.e. dadansoddeg data mawr, deallusrwydd artiffi-sial, a roboteg.

Gall mabwysiadu'r technolegau hyn ddarparu cyfleoedd i wella effeithlonrwydd gweithgynhy-rchu a gall y rhain yn eu tro gynnig mantais gystadleuol dros gystadleuwyr. At hyn, mae'r modiwl rheoli ariannol wedi fy nysgu am offer gwerthu-so ariannol er mwyn dilysu gwneud penderfyniadau mewn buddsoddiadau cyfalaf a deall sut i ddarllen prif ddatganiadau ariannol y busnes.



**Ym mha ffordd cafodd eich busnes ei effeithio gan Covid-19, Brexit, a'r digwyddiadau presennol yn y byd?**

Mae'r busnes wedi wynebu ac yn parhau i wynebu sawl her dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf.

Un o'r heriau mwyaf yw ymateb i ofynion newidiol ein cwsmeriaid, yn enwedig yn ystod y pandemig; gorfodwyd llawer o'n cwsmeriaid i weithio gartref ac roedd angen yr offer arnyn nhw i allu gwneud hyn yn effeithiol.

Yn ddiweddar, mae Bisley wedi lansio ar wefan JohnLewis.com. Mae gennym 27 o gynhyrchion craidd mewn llu o liwiau, o'n casgliad Belong - a grëwyd yn ystod y pandemig ac y dylanwadwyd arno gan y gofynion esblygol.

Mae'r bartneriaeth gyda'r cawr manwerthu yn arwydd o'r symudiad diweddaraf yn yr ehangiad sylweddol o ran uchelgeisiau e-adwerth Bisley, yn dilyn datblygiad parhaus eu harlwy e-fasnach, sydd wedi arwain at fod deg gwaith yn fwy o archebion yn cael eu cyflwyno ar-lein dros y ddwy flynedd ddiwethaf, sy'n cyfateb i gynnydd o 1100% mewn refeniw. At hyn, mae bron i 1 o bob 5 cynnyrch a archebir trwy wefan Bisley bellach yn eitemau sy'n canolbwyntio ar y cartref, mewn esblygiad amlwg o'u treftadaeth hir fel brand gweithle.

**Beth ydych chi wedi'i fwynhau ynglŷn â'r cwrs?**

Rydw i wir wedi mwynhau'r amrywiaeth yng nghynnwys y cwrs; mae'r modiwlau'n berthnasol i'r amgylchedd gweithgynhyrchu sy'n esblygu heddiw ond mae hefyd yn mynd i'r afael â rhai o heriau neu gyfyngiadau'r technolegau newydd. Fe'n hanogir i ystyried effeithiau eraill y newidiadau hyn e.e. newidiadau amgylcheddol, cymdeithasol, a'r effaith a gaiff ar y diwydiannau rydym yn gweithio ynddyn nhw. Mae hefyd yn wych clywed safbwyntiau myfyrwyr eraill gan fod gennym gefndiroedd, profiad a gofynion diwydiannol amrywiol.

Mae'r cwrs, sy'n cael ei gyflwyno ar-lein, wedi gweithio'n dda. Mae'r darlithoedd wedi'u strwythuro'n dda, yn cael eu cyflwyno mewn modd amserol ac yn hawdd i'w dilyn. Caiff y darlithoedd eu recordio bob tro sy'n ddefnyddiol iawn oherwydd gallwch ail-wylio neu ddal i fyny gydag unrhyw beth rydych chi wedi'i golli, a hynny yn eich amser eich hun.

Mae'r cyflwyniadau neu'r wybodaeth a gyflwynir yn ystod y darlithoedd hefyd ar gael ar Moodle. Mae hyn yn ddefnyddiol oherwydd gallwch argraffu copi a sgriblo nodiadau pwysig wrth i chi weithio trwyddyn nhw. Defnyddir maes Teams hefyd ar gyfer ychwanegu adnoddau pellach e.e. unrhyw erthyglau diddorol neu berthnasol mewn cyfnodolion neu fideos YouTube

Mae'r darlithwyr a'r staff cymorth ar y cwrs yn wych – dydyn nhw ddim yn gallu gwneud digon i'ch helpu. Gan eich bod yn fyfyriwr rhan-amser, mae'n bwysig iawn eich bod yn gallu cysylltu â'r darlithwyr y tu allan i oriau darlithoedd ac nid yw hyn byth yn broblem!




Mae'n hawdd cysylltu â'r holl staff trwy e-bost, ac maen nhw'n fwy na pharod i drefnu cyfarfodydd unigol, os oes angen, yn enwedig yn agos at derfynau amser ar gyfer aseiniadau. Mae'r darlithwyr ar y cwrs yn wybodus am eu maes pwnc, ac mae gan nifer ohonyn nhw brofiad o fyd diwydiant all fod yn ddefnyddiol, yn enwedig wrth egluro cymwysiadau ac atebion ymarferol.and solutions.

I gael gwybod mwy am gyrsiau byr Uwchsgilio ar gyfer Diwydiant 4.0 a Rheoli Arloesedd MADE Cymru, ewch i **www.madecymru.co.uk**

**01792 481199**
**MADE@uwtsd.ac.uk**

Ariennir MADE Cymru gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop trwy Lywodraeth Cymru. Cyflwynir ac ardystir gan Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.